

# CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL YSTRAD

# CYNLLYN BIO-AMRYWIAETH

# 2025

# CYFLWYNIAD

**Pam bod angen cynllun?**

Cyflwynodd Adran 6, Rhan 1, o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystem ehangach (dyletswydd A6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth gyflawni swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru.

Mae dyletswydd A6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled ag y bod hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny.

# BETH YW BIO-AMRYWIAETH?

Defnyddir y term bioamrywiaeth i ddisgrifio holl amrywiaeth bywyd ar y Ddaear. Fe'i diffinnir yn nhermau:

- Genynnau
- Rhywogaethau ac
- Ecosystemau.

Mae'n cyfeirio at yr amrywiaeth eang o ecosystemau ac organebau byw:

- Anifeiliaid
- Planhigion,
- Eu cynefinoedd a'u genynnau.

Mae bioamryiaeth yn hanfodol i weithgarwch ecosystemau sy'n darparu cynhyrchion a gwasanaethau na allwn ni fyw hebddynt. Mae'r isod yn tarddu o fyd natur ac ecosystemau iach:

- ocsigen
- bwyd
- dŵr ffres
- pridd ffrwythlon

- meddyginiaethau
- lloches
- diogelwch rhag stormydd a llifogydd
- hinsawdd sefydlog a hamdden

## Y GYFRAITH

**Dyma rai o brif bwyntiau'r gyfraith sy'n amddiffyn rhywogaethau:**

- Mae lladd, anafu, cymryd, gwerthu neu hysbysebu ar werth yn fwriadol neu'n ddiofal neu brynu anifeiliaid gwyllt sydd wedi eu hamddiffyn yn fwriadol yn erbyn y gyfraith;
- Mae aflonyddu yn fwriadol neu'n ddiofal ar anifeiliaid gwyllt neu niweidio eu mannau magu neu lochesi hefyd yn erbyn y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys aflonyddu sy'n debygol o amharu ar eu gallu i oroesi, cysgu drwy'r gaeaf, mudo, bridio neu atgynhyrchu neu fagu neu ofalu am rai ifanc fel arall.
- Amddiffynnir holl adar gwyllt, eu nythod a'u hwyau ac mae cosbau arbennig am anafu rhywogaethau prin penodol.
- Ni cheir hel na gwerthu planhigion gwyllt. Mae codi unrhyw blanhigyn gwyllt yn anghyfreithlon heb ganiatâd perchennog y tir. Ni ddylid hel, dadwreiddio na gwerthu planhigion a amddiffynnir yn arbennig heb drwydded.
- Mae meddiant unrhyw rywogaeth a amddiffynnir yn erbyn y gyfraith oni ellir dangos ei fod wedi ei gymryd yn gyfreithlon.

# CAMAU GWEITHREDU’R CYNGOR CYMUNED

**Cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael.**

- Bod yn ymwybodol o fewn ein trafodaethau o’r effaith ar fio-amrywiaeth yn ein penderfyniadau.

**Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd**

- Cymryd cyfleoedd i rannu prosiectau/gwybodaeth o fewn y gymuned trwy ein gwefan, bocsus gwybodaeth ag ymgyslltiad â thrigolion.

**Diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd.**

- Cywain gwybodaeth am y rhywogaethau cynhenid, eu cynefinoedd a sut orau i’w gwarchod trwy drafodaethau ag arbenigwyr yn y maes.

**Adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth**

- Cydweithio â grwpiau yn y gymuned a chydlynu â Cheidwad Y Tir, Cyngor sir Ceredigion parthed gwaith adfer a chynnal-a-chadw llwbrau cerdded/afonydd.

**Mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol**

- Rhoi ystyriaeth i geisiadau cynllunio gan gymryd Cyngor arbenigol gan y Cyngor Sir.
- Neilltuo arian yn y gyllideb flynyddol ar gyfer prosiectau bio-amryiwaeth.
- Trafod gyda arbenigwyr parthed y planhigion gorau i hybu peillio ac adfywio I sicrhau nad ydym yn plannu pethau sy’n niweidio’n cynefin.
- Trefnu sesiynau codi sbwriel

**Adolygu a Monitro:**

- Beth hyn sydd wedi gweithio'n dda
- Beth fu'r rhwystrau?
- Beth allwn ei newid?

**Adrodd**

- Mis Rhagfyr yn flynyddol (wrth drafod y gyllideb ddrafft a phennu’r swm ar gyfer gwaith amgylcheddol)
- Mis Medi yn flynyddol (wrth drafod y gyllideb hanner blwyddyn).
- Bob tair mlynedd cyn cyflwyno’r Adroddiad terfynol o’r gwaith a gyflawnwyd.